YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] AWST, 1895. [RHIF 92.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

ANERCHIAD

A draddodwyd yn Nghyfarfodydd Blynyddol Undodiaid Deheudir Cymru yn Mhontypridd, Gorph. 4, gan y Llywydd, y Parch. T. Thomas.

YN ein henwad ni yn Nghymru y mae y drefn hon yn beth newydd, ond nid yn newydd yn Lloegr a manau ereill. Y mae mewn arferiad gan enwadau ereill yn Nghymru—nis gwn er pa bryd; ond anturiaf ddywedyd mai heddyw am y tro cyntaf yw dyddiad anerchiad gan lywydd o gadair lywyddol yn mhlith Undodiaid Cymru; ac nid gormod gobeithio y bydd mabwysiad y drefn hon lanw rhyw wagle yn ein plith, a bod yn foddion er daioni yn y dyfodol.

Beth bynag yr anrhydedd, ychydig neu lawer, os llawer o gwbl, o gael eistedd yn y gadair lywyddol, ac yn enwedig fel y llywydd cyntaf yn yr enwad, nid wyf yn amheu nad oes rhyw radd o falchder wedi fy nghymmeryd i fyny, ond credaf fy mod yn esgusodol pan ystyrir nad yw henaint yn dyfod heb ei wendidau gydag ef. Nid wyf mor hunandybus a meddwl fod genyf un hawl i eistedd yn y gadair lywyddol ar gyfrif unrhyw deilyngdod neillduol a berthyn i mi, ond credaf mai teimlad da a charedigrwydd fy nghyfeillion sydd wedi rhoddi i mi yr anrhydedd hwn, yn benaf o herwydd mai fi, o'r holl weinidogion Undodaidd heddyw ar dir y byw yn Nghymru, sydd wedi bod fwyaf o amser yn y weinidogaeth. Er nad wyf mwyach yn y weinidogaeth, ond wedi diosg yr harnais, etto yr wyf yn caru mynychu'r cyfeillachau lle'r oeddwn yn cael cymmaint o bleser yn yr amser aeth heibio. Buasai yn wir dda genyf pe gallwn heddyw draddodi anerchiad teilwng o'r gadair, o'ch

gwrandawiad chwithau, ac o'r achos er mwyn yr hwn yr ydym wedi ymgynnull yma heddyw—pe gallwn ddweyd rhywbeth fyddo'n ddyddorol, ac yn adeiladol, ac felly yn gynnorthwyol i'r gwirionedd fyned rhag ei flaen. Nid oes genyf ond gwneuthur fy ngoreu—ychydig yw hyny, ac erfyn arnoch i esgusodi pob ffaeledd, a'm goddef yn amyneddgar am ychydig amser. Gwastraffais beth amser yn methu gwybod pa ddefnyddiau gymmerwn mewn llaw i gyfansoddi fy anerchiad, ond o'r diwedd daethum i'r penderfyniad mai'r peth goreu allwn wneyd oedd gosod ger bron, mewn ffordd o adolygiad, rai o'r pethau a nodweddant y ganrif sydd yn mron terfynu—y mynediad rhagblaen, fel y gellir ei alw, i'w weled yn mhob cyfeiriad braidd mewn gwyddoniaeth a chelfyddyd nes yr ydym mewn ystyr yn byw mewn byd newydd, ac yn anadlu awyr nefoedd newydd. Yn fwyaf neillduol bydd a fynnwyf yn y papyr hwn â'r cyfnewidiad a'r cynnydd sydd wedi cymmeryd lle ar faes duwinyddiaeth y canrif hwn, ar yr un pryd nid heb goffau yn ddiolchgar am rai o'r diwygiadau a'r gwelliantau gwleidyddol sydd wedi eu dwyn i fewn er mantais cymdeithas yn gyffredinol; un peth fel y llall yn brawf anwadadwy mai nid fel yr oedd gynt y mae yr awr hon; yr hyn hefyd sydd yn awgrym ac yn debygolrwydd mai nid fel y mae yn bresennol y bydd yn y dyfodol chwaith. Mae'r meddwl dynol yn nghwrs ei ddadblygiad yn dryllio llyfetheiriau y tywyllwch, yn ei fywiogrwydd yn dirmygu caethiwed yr oesau, ac yn ol ei natur, yn ymwynfydu yn ngoleuni byth-gynnyddol gwybodaeth. Pe yn ddichonadwy i ddynion oeddent yn byw ar y ddaear ddiwedd y canrif diweddaf a dechreu hwn ymweled â hi yn bresennol—h.y., â'r gwledydd mwyaf gwareiddiedig o honi, braidd y credent mai yr un blaned yw, gan fel mae gwyddoniaeth, a chelfyddyd, a diwydrwydd dyn wedi gosod gwedd mor wahanol arni. Gwelir y perthyn i'r natur ddynol, nid rhyw lygredd gwreiddiol, ond yn hytrach ryw urddas ac athrylith gwreiddiol, oblegyd y mae yn esgyn yn uwch uwch yn barhaus, yn nghyfeiriad hollwybodaeth a hollalluawgrwydd, os gallaf, heb ryfygu, arfer y fath dermau wrth siarad am ddyn. Mae yn y natur ddynol ryw yni a galluogrwydd rhyfeddol yn blanedig, i gael eu dwyn allan i weithrediad fwy fwy fel y mae'r oesau yn dirwyn yn mlaen, a hyny yn ddiderfyn ar a wyddom ni i'r gwrthwyneb. Os yw'r corff dynol wedi cyrhaedd perffeithrwydd eithaf ei ddadblygiad, fel y myntumia rhai—ac oddiar pan y mae genym un hanes am ddyn fel dyn, y mae yn ei wedd a'i ffurf bresennol, heb un ychwanegiad o na braich, na bys, na bawd, na dim arall; ond pwy all amheu na fydd i'r meddwl dynol, ac i'r natur foesol ac ysprydol, ddadblygiad a chynnydd yn y dyfodol, fel yn y gorphenol hyd y presennol? Yr wyf yn ofni fy mod, ryw ychydig, wedi ymadael â'r llinell oeddwn yn amcanu ddylyn, a rhaid i mi ddarfod â dyfalu a thybio fel hyn. Pe byddai o ryw fudd gallwn osod gerbron res hirfaith o ddyfeisiadau celfyddyd a darganfyddiadau gwyddor, ond ni chaf enwi ond nifer fechan o honynt i ddwyn i gof fel y mae y byd wedi myned yn

mlaen yn y canrif hwn, ac yna fyned i faes arall, a galw sylw at y cyfnewidiadau sydd wedi cymmeryd lle yn nuwinyddiaeth y canrif hwn—cyfnewidiadau a gyfrifir gan y mwyafrif etto ddim yn amgen na brasgamau ar y *down-grade* i annghrediniaeth a cholledigaeth dragwyddol. Enwaf yr ager-beiriant a'r ffordd haiarn sydd o gymmaint gwasanaeth cyffredinol; y goleuni lluchiasol (*electric light*) sydd yn goleuo tai ac ystrydoedd ein prif drefydd yn lle nwy (*gas*); y pellebyr *(telegraph)*, trwy ba un y mae un wlad yn gallu anfon newyddion a gwybodaeth o bethau o bwys i wlad arall mewn byr amser, fel y mae gwledydd pellenig y ddaear, mewn ystyr, yn cael eu gwneuthur yn gymmydogion agos; y pellseinydd *(telephone)*, trwy yr hwn y mae dynion, bellder mawr oddiwrth eu gilydd, yn gallu ymddyddan fel pe yn wyneb yn wyneb braidd; y *phonograph*, offeryn mwy rhyfedd fyth, trwy yr hwn y mae llais y cerddor neu'r siaradwr yn cael ei gadw ar glyw yn barhaus, ac yn cael ei ollwng allan fel o gostrel i ganu neu siarad pryd y myner. Rhyw ddyfais ddiail ydyw hon, ac nis gwyddis i ba gymmaint perffeithrwydd y gellir ei dwyn. Efallai, meddai Edwin Lawrence yn ei *Progress of a century*, y gellir gwella'r peiriant hwn, neu ei ddiwygio, nes bo dynion yn gallu clywed yn lle gweled y llyfrau maent yn chwenych eu hastudio. Mae *photography* hefyd yn un o ryfeddodau dyfais yr oes hon.

Yn mhellach gwelir cynnydd y canrif hwn ar linellau gwleidyddol oddiwrth yr amryw fesurau o bwys a bendith i ddynoliaeth yn gyffredinol. Cawd y *Reform Bill* yn 1832, ac o ddiwygiad i ddiwygiad daeth y *Penny Post* i weithrediad, yr hwn sydd o werth anmhrisiadwy i bob gradd o ddynion. Diddymwyd y dreth neu'r doll ar bapyr, fel y mae newyddiaduron a llyfrau o bob math yn cael eu cyhoeddi yn ddirif ac yn rhad, a thrwy hyn y mae y rhwystrau sydd ar ffordd gwybodaeth i fyned rhag ei blaen yn cael eu symmud ffwrdd. Mae'r Ymneilduwyr o bob enwad yn ddiwahaniaeth yn cael myned i fewn i'r Prif-ysgolion heb ymostwng i unrhyw *dest* neillduol, ac felly yn cael mwynhau manteision dysg o'r fath oreu fel mae ganddynt bob chwareu teg i ddringo grisiau teml gwybodaeth i unrhyw uchder o fewn cyrhaedd eu galluoedd. Passiwyd y *Ballot Act*, trwy yr hwn y mae genym y fraint o gael pleidleisio yn ddirgel, yn ol ein cydwybodau heb ofni'r *screw*. Gellir 'chwanegu Deddf y Cynghor Sirol, y Cynghor Dosparth, a'r Cynghor Plwyfol; a gobeithir a chredir hefyd fod Mesur Dadgyssylltiad a Dadwaddoliad yr Eglwys Sefydledig ar fin cael ei osod ar Ddeddflyfr Prydain Fawr; ac yna gwawriad y milflwyddiant yn ol barn rhai.

Mae yr ychydig ffeithiau hyn a ddidolais o blith llawer yn profi fod cynnydd wedi bod yn y canrif hwn mewn rhagor nag un cyfeiriad—fod gwybodaeth wedi myned rhagddi, ac wedi esgor ar lawer dyfais a darganfyddiad ag sydd wedi codi yr oes hon yn llawer uwch nâ'r oesau blaenorol; ac yn ol cyfaledd neu *analogy*, bydd galluoedd dwfn-guddiedig y meddwl dynol i gael eu dadenhuddo yn llawer cyflawnach etto yn yr oesau a ddaw.

Taflaf olwg ranol dros faes duwinyddiaeth yn nesaf, er mwyn gweled sut y mae wedi bod yn y cylch hwn. A oes yma un yspryd a blaenfynediad i'w ganfod? A oes yma feddwl wedi bod ar waith a chyfnewidiad neu gyfnewidiadau wedi cymmeryd lle yn marn dyn ar rai o bynciau neu athrawiaethau mawrion crefydd? A yw yr hyn a gredid gan ein tadau a'n teidiau yn dal yn mlaen yn hollol ddigyfnewid? Ai megys yr oedd yn y dechreu y mae yr awr hon? Ai ynte mae rhai o'r hen syniadau wedi eu gadael ar ol, a syniadau gwell wedi cymmeryd eu lle. Nid yw dynion wedi bod mor galonog ac anturiaethus ar faes duwinyddiaeth, o herwydd tybid, yn debyg, y perthynai iddo ryw neillduolrwydd neu ryw gyssegredigrwydd na pherthynai i unrhyw faes arall o fewn cylch ymchwiliad neu rydd-ymofyniad. Fel rheol, ofnai y rhan fwyaf sangu ar y maes hwn rhag y byddent yn rhyfygu, ac mewn canlyniad cai duwinyddiaeth aros yn ddigyfnewid ar y cyfan, fel yr oedd wedi cael ei throsglwyddo i lawr o'r oesau tywyll. Ar yr un pryd yr oedd peth aflonyddwch yn bod, ac anturiai ambell un mwy calonog nâ'r lleill gipedrych dros gaerau iawnffyddiaeth, yn amheu ai Efengyl i gyd ydoedd hi; ond yr oedd y perygl o syrthio i heresi yn rhwystr i fyned yn mhell iawn dros y terfynau cyfreithlon. Y Beibl, yn ol esponiad yr awdurdodau arno, oedd y *standard* i brofi neu wrthbrofi pob peth, pa un bynag ai mewn duwinyddiaeth ai mewn gwyddoniaeth neu ryw -aeth arall, a gwae i'r sawl y byddai tystiolaeth y Beibl yn ei erbyn: er enghraifft, dywedodd Galileo mai'r ddaear ac nid yr haul oedd yn troi; yr oedd hyny yn groes i dystiolaeth y Beibl, a gorfu iddo dynu ei eiriau yn ol neu fyned i garchar. Mae daeareg yn dysgu yn groes i'r hyn a ddywedir yn Llyfr Genesis am greadigaeth y byd, o ganlyniad hwyrfrydig yw dynion i gredu tystiolaeth daeareg. Servetus, yn mhlith ychydig ereill, a wadai athrawiaeth y Drindod, yr hon oedd yn athrawiaeth dadguddiad fel y myntumiai yr awdurdodau, a'r canlyniad iddo fu cael ei losgi i farwolaeth rhwng ffagodau. Am yr un trosedd tynwyd i lawr dy cwrdd Dr. Priestley yn Birmingham (1791), llosgwyd ei lyfrgell, a gorfu iddo ef a'i deulu ffoi i America lle yr oedd mwy o ryddid. Mae y pedair llinell ganlynol allan o emyn—ïe, o emyn, yn dangos yn iawn pa fodd y teimlid gynt tuag at yr heretic:—

> "Assert thy glorious Deity,
> Stretch out thine arm, thou triune God,
> The Unitarian fiend expel,
> And chase his doctrine back to hell."
>
> *Wesley's Hymns, 443.*

Ond yn y canrif presennol mae yspryd gwell wedi dyfod i fewn; mae rhydd-ymofyniad yn cael ei oddef, ac yn cael ei annog, a gallaf ddweyd fod rhai o'r heresiau gynt yn Efengyl erbyn heddyw, a chredaf y byddant oll yn Efengyl yn y dyfodol, a hyny heb fod yn faith, oblegyd dyna'r cyfeiriad mae duwinyddiaeth yn gymmeryd ar hyn o bryd. Gall cyfeillion gwirionedd lawenhau—mae arwyddion yr amserau i'r eithaf yn ffafriol. Braidd fod eisieu dweyd ein bod

ni fel enwad yn mhob gwlad yn rhydd-ymofynwyr erioed, o herwydd dyna'r rheswm yr ydym yn Undodiaid, ac yn blaid mae llawer o ddweyd yn ei herbyn. Yr ydym bob amser wedi arfer ein deall wrth ddarllen yr Ysgrythyrau, a phwyso'r oll a ddarllenwn yn nghlorian rheswm. Efallai nad ydym mor geidwadol â'n cynafiaid; ac y mae rhai o honom yn fwy ceidwadol nâ'u gilydd etto, ond yr ydym yn cytuno i annghytuno. Mae llawer o farnu wedi bod arnom ni fel Undodiaid; yr ydym yn cael ein cyhuddo a wadu'r Beibl—gwadu ei ysprydoliaeth, ei ddiystyru fel dadguddiad oddiwrth Dduw, a hyny am y dywedwn nad oes Trindod ynddo, a llawer athrawiaeth boblogaidd arall, ac hefyd am na fedrwn wel'd cyssondeb yn y cyfan a ddywedir ynddo. Mae genym bob parch i'r Beibl, ac y mae yn fwy gwerthfawr yn ein golwg nâ'r un llyfr arall, a theimlwn ei fod yn ysprydoliaeth i ni pan yr ydym yn ei ddarllen, ond ni fynwn fod yn slafiaid iddo mewn unrhyw ystyr.

(*I'w barhau.*)

LLWYDDIANT D. LEWIS, TALGARREG, YN ETHOLIAD BWRDD YSGOL LLANARTH.

Dyna newydd da rhagorol a ga'dd pobol Tref Caerdydd—
Dafydd Lewis mor llwyddiannus yn y 'lecsiwn frwd pa ddydd!
Clyfer yw mewn celfyddydwaith, clyfrach eilwaith ddydd y *poll:*
Trechu wnaeth yr holl ficeriaid—hwy, fel ereill, fu ar ol.
Clod i'r hwn y mae'n ddyledus; aelod campus a wna ef;
Dyn yw o dalentau eang: parch sydd iddo'n ngwlad a thref.

'Nawr, ar derfyn hyn o eiriau, mi ddymunaf iddo'n llon
I fod nesaf ar y *Council*, drwy gael *votes* y wlad o'r bron.
Gyfaill anwyl, ymarfoga! gweithia 'nawr fel cawr ei allu,
Fel na themtia un offeiriad mwyach byth gael dy orchfygu.

Caerdydd. J. Enoch.

RHAI MEDDYLIAU AM IESU GRIST.

Yr wyf yn myned i roddi darlun o'r hyn a dybiaf oedd Iesu Grist. Rhaid myned yn ol trwy'r canrifoedd sydd rhyngom ag ef, a cheisio cael allan sut un oedd cyn i draddodiadau gael eu dwyn i fewn i lygru'r hanes.

Gwelwn ef yn blentyn bychan fel pob plentyn arall, wedi ei eni a'i fagu fel plant ereill oddiamgylch iddo. Gwelwn ef yn cael ei ddwyn i fyny yn rhinweddol, yn chwareu gyda phlant ereill y pentref, yn cael ei ddwyn i fyny i barchu crefydd ei dadau, ac i barchu'r

Deml a'r synagog—lleoedd oeddynt mor anwyl i bob Iuddew yn ddiwahaniaeth. Dysgid iddo ysgrythyrau crefydd ei genedl, y rhai a gynnwysent eu hanes, eu haml flinderau a gofidiau, yn gystal â'r cyfnodau nodedig a dymunol yn eu hanes. Ac yr oedd hyn oll yn meddu dylanwad mawr ar feddwl un fel yr Iesu—bachgen calon-agored, didwyll, a pharod i dderbyn argraffiadau. Yr oedd yr hanes hwn yn creu cariad angerddol yn ei fynwes at ei genedl, fel yn mynwes pob Iuddew arall; ac yr oedd ei serch at ei genedl yn peru fod unrhyw beth oedd yn trallodi'r genedl yn achosi gofid a blinder yspryd iddo yntau, a phob peth oedd yn dwyn dedwyddwch a hawddfyd yn ei foddloni.

Yr oedd yna ddylanwad arall hefyd ag oedd yn gwneyd y cariad hwn yn fwy angerddol, sef y ffaith fod ei genedl ar y pryd yn genedl orchfygedig. Yr oedd tân brwdfrydedd bron tori allan yn ei fynwes. Y fath frwdfrydedd all dyn ieuanc deimlo pan wedi ei gyffroi yn drylwyr! Onid ydym weithiau wedi teimlo'r brwdfrydedd hwn ynom ein hunain? Teimlo awydd gwneyd rhyw waith, ond yn methu dechreu hyd nes y gwelwn rywun arall yn dechreu o'n blaen. A dychymygaf mai felly yr oedd yn achos Iesu Grist; ac felly, pan y gwnaeth Ioan ei ymddangosiad, gwelodd Iesu Grist ei gyfleusdra. Dyma beth olygir (un peth a olygir fodd bynag) wrth ddweyd fod Ioan yn parotoi'r ffordd i Iesu Grist.

Yr ydym bellach yn ei weled ar ei ymgyrch genadol, pryd y cawn y cyfle—yr unig gyfle—i'w weled yn ei ogoniant. Gwelwn ef yn yr hyn a elwir yn bregeth ar y mynydd; yn y dammegion, yn enwedig yn nammeg y Samariad trugarog a dammeg y mab afradlon, yn un o'r rhai y gesyd allan swm a sylwedd gwir grefydd mor syml a chywir, yn y llall y cariad a'r tosturi, y tadoldeb a'r parodrwydd i dderbyn ei blentyn crwydredig yn ol i'w fynwes, sydd yn perthyn i'r Tad nefol; gwelwn ef yn ei gariad at y syrthiedig yn y llinell amlwg o gydymdeimlad pur at ddyn o bob math, yn enwedig y dynion ag y mae'r byd yn gyffredin mor barod i droi ei gefn arnynt, sydd i'w weled yn mhob gweithred o'i eiddo; a gwelwn ef yn ei farwolaeth—gwelwn ddyn ieuanc yn anterth ei nerth, a allai dreulio ei fywyd mewn esmwythyd a llonyddwch pe wedi gwrthod gwrando ar lais ei gydwybod, yn rhoi ei fywyd i lawr ar y groes er mwyn ei genedl.

Wrth edrych ar y darlun anmherffaith hwn o'r Iesu, mor brydferth ydyw! mor ardderchog! mor wahanol ydyw i'r darlun a roddir o hono yn gyffredin! Mae Iesu y Testament Newydd—y dyn tyner, twymgalon, trugarog, cariadus, a gweithgar dros les ei gyd-ddyn, wedi cael ei guddio a'i gadw o'r golwg gan Iesu Grist y credoau—bod nas gallwn ei ddeall, nad yw yn meddu un swyn i'n tynu ato, nas gallwn ei garu a'i barchu, ac nad yw yn meddu un dylanwad i'n tywys i'w ganlyn.

Mae cyfnod dylanwad Iesu Grist y credoau yn agoshau i'r terfyn, ond y mae cyfnod dylanwad Iesu Grist yr Efengylau yn y dyfodol. Mae yn dechreu gwawrio eisoes; a phan ddaw y cyfnod hwn, ni

chlywir son am gredoau celyd, dideimlad, a chreulawn mwy, daw yr Iesu fel yr oedd i'r amlwg, a dysg ni i fod yn gariadus, i garu'r gwir, i garu ein cyd-ddynion, i weled prydferthwch sancteiddrwydd, i fod yn ffyddlon i egwyddor, ac i fod yn bur mewn ymddygiad. Buan y delo'r cyfnod hwn yn ei gyflawnder.

GOFYN AC ATEB.

'Gaf fi ateb i 'ngweddïau? Duw a ŵyr.
Doethach Ef nâ mi, gorphwysaf arno'n llwyr.

'Oes im' angen mwy o ysgol? Yn y man,
Y dyfodol rydd i'm weled, beth yw'r rhan
A ddarparodd y Tad Goreu. Rhywbeth da,
Allan o bob poen a thristwch, llifo wna.

Yn y dyddiau etto i ddyfod, beth a gawn?
Dysgu cyrch ei holl fwriadau—Cariad llawn!

C.L.

PUMP PWNC.

Er mwyn bod yn Galfin da, rhaid credu y pump pwnc sydd yn myned ar ei enw. Ac er mwyn eu credu y mae'n angen gwybod beth ydynt yn gyntaf peth, ac o bossibl fod rhywbeth arall yn angen hefyd. Os dygwydd i'r darllenydd fod yn credu yn mhump pwnc Calfin, nid oes sicrwydd y bydd iddo gredu yn y pump pwnc fyddant yn brif destyn yr erthygl bresennol. Dynodir Pump Pwnc Calfin gan y geiriau canlynol:—Arfaeth, pechod gwreiddiol, prynedigaeth neillduol, gras anwrthwynebol, a pharhad y saint. Ond y pump pwnc y bwriedir ymdrin â hwy yn bresennol a ellir eu dynodi fel Pump Pwnc Dr. Martineau. Y mae enw Dr. Martineau yn fwy adnabyddus yn Lloegr, ac o bossibl yn mhob man arall lle siaredir y Saesneg nag ydyw gyda ni yn Nghymru. Dathlwyd ei ben blwydd ar yr 21n o Ebrill diweddaf gyda chynhesrwydd mawr. Ganwyd ef 1805; yr oedd felly ar y dyddiad uchod yn bedwar ugain a deg oed. Nid annymunol fyddai gweled darlun o hono gydag adolygiad o'i fywyd a'i waith mewn rhifyn dyfodol o'r Ymofynydd. Ond at ei Bump Pwnc. Gwnaethant eu hymddangosiad gyntaf yn 1841, ac y maent yn darllen mor hynod ffres ac awgrymiadol y dydd hwn fel yr ydys newydd eu cyhoeddi yn draethodyn bychan yn nghyfres y "Tracts for the Times," yn y gobaith iddynt fod yn gynnorthwyol i feddyliau sydd wedi eu taflu i amheuaeth gan ddadleuon moesol a chrefyddol y dydd. Yn nghanol yr holl ddyryswch, ac er gwaethaf

yr holl ddwndwr a'r amheuon, deil Dr. Martineau fod pump gwirionedd annghyfnewidiol a diamheuol yn aros, a bod y rhai hyn yn ffurfio cadwyn o bump bàn adamantaidd ydynt fel Craig yr Oesoedd yn ymgodi goruwch moroedd symmudol opiniynau dynol. Gallwn orphwys ein ffydd yn ddibetrus yn

NGHANFYDDIADAU MOESOL DYN

(in the moral perceptions of man). Y mae dyn yn rhinwedd ei gyfansoddiad naturiol yn cael ei arwain yn anwrthwynebol i garu ac i barchu pa beth bynag sydd yn fawr ac yn rhagorol mewn cymmeriad, ac i gashau pob peth sydd yn isel ac yn wael. Y mae'r gymmeradwyaeth a roddwn i Gyfiawnder, Trugaredd, a Gwirionedd, yn beth hollol wahanol i'r cydsyniad a roddwn i ryw debygoliaeth wyddonol. Y mae'r canfyddiad o amrywiaethau moesol yn perthyn i'r dosparth uwchaf o'r pethau sicr; nid perthynasol ydynt, ond y maent yn ddiammodol *(absolute).* Nid yw'r wrtheb fod gan wahanol ddynion wahanol feddyliau am ddrwg a da, am yr iawn a'r aniawn, yn bwysig. Yn un peth, y mae'r amrywiaethau yn anfeidrol fychan mewn cymhariaeth i'r cydsyniad neu'r cytundeb moesol sydd mor gyffredin yn mhlith dynion; a diflana'r amrywiaethau hyn fel y byddwn yn esgyn y raddfa foesol. Datguddir gwirionedd sylweddol ein natur gan yr ymostyngiad moesol sydd yn ffynu yn mhlith dynolryw. Ceir y gydwybod is yn wastad yn ymgrymu neu yn ymostwng i'r uwch; a dynion ydynt wedi eu donio â'r gydwybod uwchaf yn wastad yn casglu oddiamgylch iddynt y lluaws, y rhai a weddïant am gael eu dyrchafu uwchlaw gwastadedd neu lefel eu bywyd, ac a fendithiant y cymmwynaswr a'u deffroa i ymwybyddiaeth o'u natur uwch. Y peth nesaf y gallwn seilio ein ffydd arno yw

Y CANFYDDIAD MOESOL O DDUW

(the moral perception of God). Trwy ein natur foesol, yn hytrach na'r ddeallol, y cawn ni ganfyddiad o Dduw. Fod Sancteiddiolaf yn llywio'r bydysawd sydd ddàtguddiad a ddaw trwy fod y gydwybod yn ymneillduo iddi ei hunan. Y galon bur amlygwel, yn hytrach nâ'r deall cyflym a chlir, a ganfydda Dduw. Dichon i athroniaeth, yn ei hesmwythyd, lithro i betrusder amheuaeth, tra mae'r rhai ydynt wedi cael profiad ymarferol, a thrwy eu hymdrech yn casglu nerth moesol dan wasgfa lludded llafur, yn edrych i fyny gydag ymddiried bywiol, ac ar flinion draed yn parhau yn ddedwydd ar eu taith i drigfanau y cariad tragwyddol. Nid yw ein synwyr moesol, pan yn canfod perffeithrwydd moesol Duw, yn sylwi dim ar un gyfundrefn o grefydd sydd yn wrthwynebol i'r perffeithrwydd hwnw fel un y gellir ei chredu ar un telerau yn y byd. Cawn rai cyfundrefnau crefyddol yn dysgu fod Duw yn gweini cosp annherfynol—nis gallwn gredu'r cyfryw. Cyfeiliornad dybryd yw tybio fod y Perffaith Gyfiawn dan rwymau i weini cosp annherfynol a dibaid fel meddygin-

iaeth rhag pechod. Y mae mor gwbl anmhossibl fod yr hyn sydd ddrwg mewn dyn yn dda yn Nuw, ag ydyw fod yr hyn sydd yn gylch ar y ddaear yn ysgwâr yn y nefoedd. Gallwn, yn drydydd, ymorphwys gyda phob hyder ffydd fod

EIN DYMUNIADAU UWCHAF A'N SERCHIADAU GOREU, O GARITOR HOLLOL DDWYFOL AC YSPRYDOLEDIG.

Nid yw yr hyn sydd gynnwysedig o fewn meddwl dyn ddim oblegyd hyny yn gauedig allan o feddwl Duw. Megys yn y byd naturiol y gallwn ar yr un pryd briodoli unrhyw ddygwyddiad i ddysgyrchiad (*gravitation*) neu ei briodoli i Dduw, felly hefyd yn myd y meddwl. Er y dichon i fy meddwl, fy ngobaith, fy nghariad, beidio bod yn eiddo chwi, etto, gallant fod yn eiddo Duw. Nid oes genym un cydymdeimlad ag unrhyw gynllun sydd yn gwadu Yspryd Glan, nad yw yn canfod dim dwyfol yn mhrofiadau uwchaf y natur ddynol, nad yw yn cydnabod un aphwys du nac un uchder nefol yn enaid dyn. Y mae'r dyhead at ddyledswydd, gan hyny, a'r cariad at ragoriaeth, a'r serchiadau sanctaidd ac anhunangar y mae pob calon dda yn ymwybodol o honynt, yn gwneuthur i fyny y berthynas hon ag ef, trwy yr hon yr adwaenwn Ef megys y mae tebyg yn adwaen tebyg. Fel hyn gyda'r Apostol Paul, addefwn ein hunain, nid heb ddwfn a pharchedig ofn, yn wir deml y Sancteiddiolaf. Gallwn hefyd ddal ar ffydd yn

NGHRIST FEL DATGUDDIWR PERFFEITHRWYDD MOESOL DUW.

Bu Crist fyw a marw, nid i berswadio'r Tad, nid i ostegu llid y Tad, nid i wneuthur pwrcas gwaedlyd oddiwrth y Tad, ond "i ddangos i ni y Tad!" Os i bob dyn ei Dduw yw ei *oreu*, nis gellwch roddi i'w ffydd Dduw uwch nes y rhoddoch i'w galon *oreu gwell*. Cawn hyn yn Nghrist. Rhoddodd yr Iesu ini ffydd uwch nag a ddaliwyd erioed o'r blaen yn serchogrwydd y Llywydd Mawr; gwnaeth Ef i ni yn Dduw teuluaidd, a'i gartref eang yn cylchu'r oll, nad yw yn gadael yr unig, na'r pechadur, na'r trist, heb le yn nhrigfanau ei dy. Ac y mae addysgiadau Crist yn cadarnhau ac yn eangu gwersi ei fywyd. Yr oedd Cadben ein ffydd, gyda'r meddiant o'r sancteiddrwydd uwchaf, yn alluog i lefaru gyda'r wybodaeth fwyaf awdurdodol; yr oedd wedi ei ysprydoli i fod ini yn Arweinydd arbenig, nid o bossibl yn mhynciau dibwys esponiad llenyddol, neu ffaith wyddonol, neu ddysgwyliad hanesyddol, ond yn yr holl berthynasau dwfn a difrifol y mae ein sancteiddhad a'n gwynfyd anfarwol yn dybynu arnynt. Gallwn gynnal a chadw ein ffydd yn

ANFARWOLDEB DYN.

Os na ddarfu i'r Iesu ddysgu ini wirionedd Duw yn y mater hwn, sicr yw na wnaeth neb arall erioed o hyny. Pwy sy'n gamsyniol

yma, y gloddestwr, yr hwn, drwy ei ymroddiad i'w flys, nid yw yn gallu dychymygu parhad yr yspryd; ynte Crist, yr hwn a rodiodd heb syrthio i anobaith trwy gynniweirfaoedd dyfnaf pechod, gyda ffydd nad oedd yn ymollwng o flaen tristwch a thrueni, ond a safodd i fyny ac a'u gorchfygodd; yr hwn a gofleidiodd ein holl natur yn ei gariad, gan wneuthur arddangosiad o'r gallu ysprydol aruchel a berthynai iddi; yr hwn a fu byw ac a fu farw yn ei gwasanaeth, gyda gweddïau a dagrau a gwaed; wrth yr hwn y mae ein serchiadau cynhes yn glynu braidd gydag addoliad megys wrth ogoniant sancteiddiaf ein byd? Y bywyd dyfodol hwnw sydd yn golygu addaliad i'r drwg, a olyga adferiad hefyd. Y mae hyd y nod yr atgasrwydd gyda'r hwn yr edrycha ochr well y meddwl dynol ar ei ochr waeth, tra y mae yn gweinyddu cosp, ar yr un pryd yn dechreu ei feddyginiaethu. Felly, hwnt i derfyn tywyll bywyd ymgyfyd o'n blaen gyferbyniadau (*contrasts*) aruthrol ad-daliad; ac yn y pellderau draw weledigaeth aneglur ond gogoneddus byd o ddynion wedi eu puro, eu hachub, a'u gosod ar lwybr cynnydd tragwyddol.

T.C.W.

FAFASOR POWELL.

Gormod gorchwyl fyddai rhoddi ger eich bron hanes cyflawn am holl ddygwyddiadau bywyd helbulus ein gwrthddrych: ni wnawn ond yn unig roddi bras linelliad o'i hanes yn ddyn ieuanc ar fyn-yddau Sir Faesyfed hyd ei farwolaeth yn Llundain.

Ganwyd yr enwog Fafasor Powell yn y Cnwc Glas, Sir Faesyfed, yn y flwyddyn 1617. Enw ei dad oedd Richard Powell, yr hwn oedd foneddwr parchus yn y sir hono. Yr oedd ei fam yn disgyn o deulu anrhydeddus y Vavasors, yr hwn deulu oedd wedi ymsymmud o Swydd Gaerefrog, ac wedi ymsefydlu yn Ngogledd Cymru, ac wedi ymgyfathrachu â phrif deuluoedd Gogledd a Deheudir Cymru. Felly, yr oedd o ran gwaed ac achau yn gyfartal i'r goreu yn yr holl wlad, am ei fod yn perthyn yn agos i bendefigion yr Amwythig, Trefaldwyn, Meirionydd, a *Maesyfaid*.

Gallwn gasglu iddo gael cyfran helaeth o addysg yn nhymhor ei ieuenctid yn ei wlad enedigol; ond ni wyddys yn mha le na than addysgiad pwy y cafodd hyny; ond cawn ef yn ddyn ieuanc yn efrydu a pharotoi ar gyfer urddau eglwysig yn Ngholeg Iesu, Rhydychen, lle y dywedir iddo gynnyddu yn rhagorol mewn dysg; ond nid yw yn debygol iddo dderbyn na gradd nac urddau cyn ei ymadawiad â'r coleg.

Wedi ei ymadawiad a'r Brif Ysgol, ymsefydlodd yn Nghlun, Sir Amwythig, a bu yn cadw ysgol yno dan nawdd ei ewythr frawd ei dad, sef y Parch. Erasmus Powell, periglor y lle, a chynnorthwyai ei ewythr yn y gwasanaeth trwy ddarllen y gweddïau. Am ba faint o amser y bu yn gwasanaethu fel curad gyda'i ewythr sydd anhyspys,

ond gallwn dybio na fu yno yn hir iawn, ac nad oedd ychwaith ond ieuanc iawn, oblegyd er ei fod wedi cael addysg dda, nid oedd wedi darllen y Beibl gydag unrhyw ystyriaeth na pharch dyladwy hyd nes yr oedd yn ugain oed. Yr adeg hon dechreuodd feddwl a myfyrio yn ddwys yn nghylch ei gyfrifoldeb cymdeithasol a moesol; a thrwy gynnorthwy llyfryn bychan o'r enw *Y Gorsen Ysig*, cafodd gryn lawer o fwynhad, goleuni, a thawelwch i'w enaid trallodus. Yn y flwyddyn 1632 cawn i Walter Cradock gael ei droi allan o Guradiaeth Gwrecsam am bregethu yn erbyn meddwdod: yr oedd elw bydol y bragwr yn Ngwrecsam yn fwy yn ngolwg y periglor a'r esgob nag achub eneidiau, ac ymsefydlodd Cradock yn Llanfair Waterdin, yn Sir Mwythig, dan nawdd Syr Robert Harley, Brampton Briars; ac yn ystod yr amser byr y bu yno gwnaeth yr holl wlad yn un goelcerth gan dân sanctaidd diwygiad, a dywedir mai ar yr adeg hon y cafodd Fafasor Powell ei gadarnhau yn ffordd iachawdwriaeth. Y mae yn ymddangos fod yn y fan hon dipyn o annghyssondeb, i'm tyb ostyngedig I, beth bynag, oblegyd nis gallasai Fafasor fod uwchlaw 15 mlwydd oed yn 1632, ac ni fu Cradock yno ond prin ddwy flynedd, am y cawn ef yn olynydd i'r Parchedig Wroth, yn Llanfaches, yn 1634, a bu yno am 12 mlynedd, sef hyd 1646, pan y symmudodd i Eglwys All Hallows yn Llundain. Felly, yn ol tystiolaeth Fafasor Powell ei hun, rywbryd wedi 1637, pan wedi cyrhaedd ei ugain oed, y cafodd ef ei lanw ag yspryd a sêl grefyddol ac i droi allan fel *diwygiwr Piwritanaidd*, i oleuo ei gydgenedl oedd yn farw i bob peth ysprydol. O 1637 hyd 1642, ymroddodd â'i holl egni i bregethu i'w gydwladwyr: teithiodd bob rhan o'r wlad, ac nid oes na thref na phentref na fu efe yno yn rhybuddio y preswylwyr diofal i ffoi rhag y llid a fydd. "Pregethai o leiaf ugain waith yn yr wythnos yn ei wahanol gylchdeithiau" (*Cymru*, cyf. II., p. 450). Bu ei lwyr ymroddiad i bregethu yr Efengyl i'w gydgenedl yn achlysur iddo golli hawddgarwch y rhan fwyaf o'i gyfeillion pendefigaidd, ac hyd y nod ei berthynasau agosaf, oblegyd ymosodwyd arno un noson gan ddau gefnder iddo, y rhai oeddynt wedi penderfynu ei ladd, a rhoddasant iddo gurfa druenus, ond methasant â'i ladd.

Oddeutu yr amser hwn yr oedd erlidigaeth ofnadwy wedi codi yn erbyn y Piwritaniaid, y rhai oeddent yn gorfod ffoi i rywle am nawdd ac ymgeledd i'r Cyfandir ac i America, o herwydd y mae yn debyg fod Iarll Strafford, Prif Weinidog Siarl I., yn elyn annghymmodlon i'r Piwritaniaid, a chyrhaeddodd yr erlidigaeth gilfachau mynyddoedd Cymru. Yr adeg ofnadwy hon bu yn gyfyng iawn arno am ei fywyd. "Cynllwynwyd am ei fywyd a'i ryddid, trwy ei garcharu ac arfer pob math o greulondeb tuag ato i'r fath raddau, fel o'r diwedd y gwelodd efe a'i gyfeillion mai doethach fuasai iddo adael ei wlad rhag syrthio yn aberth i gynddaredd ei elynion; ac felly y bu. Yn 1642 ymadawodd â Chymru, a chawn ef yn y Brif Ddinas yn pregethu i gynnulleidfa yn Blackfriars, a bu yn pregethu yno gyda llwyddiant mawr—am ddwy flynedd, medd un hanes, ac yn yspaid y rhyfel, medd un arall. Ond hyn sydd sicr: daeth i sylw

buan gan bawb, a theimlwyd ei fod yn allu anwrthwynebol yn y Brif Ddinas. Cododd ei elynion i'w erbyn, a gorfu arno symmud ei drigle i Dartford yn Nghent, lle y bu am ddwy flynedd a hanner yn gweithio yn galed i oleuo a dysgu y werin yn ffyrdd rhin a moes, a sefydlodd yno gynnulleidfa gref.

Yn y cyfamser, wedi i Gymru ymdawelu gan dwrf y Rhyfel Cartrefol, a bod dan nawdd y Senedd, aeth rhai cyfeillion i F. P. o Sir Faesyfed i Dartford, i'w gymhell i ddychwelyd i Gymru; ond cyn myned, ymddengys iddo fod dan arholiad y Gynnadledd o Dduwinyddion a bennodasid i brofi a chymmeradwyo pregethwyr cyhoeddus; ac ar yr 11eg o Fedi, 1646, derbyniodd drwydded wedi ei harwyddo gan ddeunaw o'r profwyr; a daeth yn ol drachefn i Gymru. Teithiai lawer wythnos dros gan' milldir, a phregethai yn mhob man y cenadid iddo, a hyny ar bob adeg—dydd ai nos, dan do neu yn yr awyr agored, ganol nos fel canol dydd. Pregethu a dysgu oedd ei waith ef dan bob rhyw amgylchiad: nid oedd na ffair na marchnad yn yr holl wlad na fuasai F. P. yn pregethu yno.

Cawn fod Ynys Fon heb lwyr ymostwng i awdurdod y Senedd, ac yn 1647 anfonwyd milwyr yno i'w darostwng, ac anfonodd y cadben at Powell i ddyfod atynt i fod yn gaplan, â'r hyn y cydsyniodd. Bu gyda'r fyddin mewn brwydr yn Mon, a chafodd ddiangfa gyfyng. Cafodd yno ei glwyfo yn dost, yr hyn a'i hanalluogodd i gyflawnu ei wasanaeth. Ymneillduodd oddiwrth y fyddin, gan ystyried mai ei waith penaf ef oedd pregethu a dysgu y werin yn ngeiriau gwirionedd a sobrwydd yr Efengyl, ac nid eu gyru i'r farn trwy fwledi a min y cleddyf. Camsyniad yw mai yn myddin y brenin y gwasanaethai, oblegyd yr oedd ei syniadau yn eithafol werinaidd, ac yn wrth-freniniaidd i'r un eithafoedd; ac am hyn coleddid syniadau uchel am dano gan Cromwell, ac ar Ragfyr 10, 1649, cawn ef yn pregethu o flaen Arglwydd Faer Llundain, a cher bron y Senedd yn Chwefror, 1650, yr hyn a brawf ei fod yn berson tra nodedig yn y Wladwriaeth ar y pryd.

Gan ein bod yn dylyn dyddiadau, yr ydym yn cael ei fod yn wr priod yn 1649, ac yn trigiannu ar ei dir ei hun yn y Goitre, Plwyf Ceri, Sir Drefaldwyn, lle yr oedd ei wraig a'i blant, ond yn y lle, o herwydd ei alwedigaeth Efengylaidd, nid oedd modd iddo ef ei hun aros ond ychydig o'i amser. Enw ei wraig oedd Catherine, ond ni wyddys merch i bwy, nac o ba wlad yr hanai, nac ychwaith nifer nac enwau ei blant. Dichon y ceir llawer iawn rhagor o hanes teuluaidd F. Powell yn yr *Universal Dictionary?* a gyhoeddir cyn hir.

Y mae yn debygol ei fod yn bur hoff o fyned i Lundain. Pa un ai yn ei gyssylltiad ag Eglwys Blackfriars neu ynte yn ei gyssylltiad â'r Llywodraeth fel *Commissioner* Eglwysig yn Nghymru, y mae yn anhawdd penderfynu. Cawn ef yn Llundain oddeutu diwedd 1653, ac yr oedd yn y Brif Ddinas pan gymmerodd Cromwell y teitl o amddiffynydd Rhydd-Wladwriaeth Prydain Fawr, a gwrthwynebodd y peth yn gyhoeddus, a thraddododd bregeth bwysig y diwrnod hwnw yn Eglwys Blackfriars, yn collfarnu'r honiad yn y modd

mwyaf llym, ac am yr hyn y bwriwyd ef i garchar am rai dyddiau, ac yr arholwyd ef o flaen y cynghor; ond gollyngwyd ef yn rhydd. Y flwyddyn ganlynol cawn ef yn Nghymru, ac yn gyssylltiedig ag amryw ereill yn tynu allan wrthdystiad yn erbyn gwaith Cromwell yn trawsfeddiannu yr hyn a ystyrir yn gyfystyr â'r orsedd.

Y gwrthdystiad hwn o eiddo F. Powell a'i ganlynwyr a ffyrnigodd gymmaint ar Cromwell a'i bleidwyr, gan y tybient mai efe fu â'r llaw flaenaf ynddo, fel y danfonwyd byddin o wyr traed i Aberfechan, yn Sir Drefaldwyn, i'w ddal. Yr oedd efe ar y pryd yn cynnal cyfarfod gweddi, a chymmerasant ef o flaen Major-General Berry i Gaerwrangon, yr hwn a'i derbyniodd yn garedig, ac a'i rhyddhaodd, gan ei annog yn addfwyn na fynychai y cyfryw ymddygiad. Fel hyn ni fu efe heb ei elynion yn nyddiau rhwysg y Werin-lywodraeth.

Ond pan ddychwelodd Siarl II. i'r wlad hon, ac eistedd ar orsedd ei dad pendoredig, tywalltodd y Llywodraeth a'i elynion eu llid arno yn ddidrugaredd. Ebrill 28, 1660, cyn toriad dydd, daeth byddin o filwyr at y Goitre—ei drigfod, ac a'i cymmerasant heb un rhybudd, ac yn hollol ddiachos, i Garchar Trefaldwyn, ac yno y bu am ychydig dros ddeufis. Symmudwyd ef i'r Amwythig, ac wedi bod yn garcharor yno am naw wythnos, rhyddhawyd ef. Ond yn mhen tair wythnos daliwyd ef drachefn, dan y cyhuddiad o gabledd, gwrthryfel, a theyrnfradwriaeth. Bwriwyd ef etto i Garchar Trefaldwyn; ac wedi bod yno am rai misoedd yn rhwym, a gwrthod cymmeryd y llwon, na chydymffurfio, dygwyd ef o flaen y brenin a'i gynghor, a'r canlyniad fu ei draddodi i Garchar Fleet Street, Llundain. Bu yno am ddwy flynedd, a thros fwy nâ hanner yr amser hwnw yn gorfod byw a bod mewn ystafell dywell, yr hyn, gyda sawyr drewedig tomen o fudreddi oedd gyferbyn a'r ffenestr, a niweidiodd ei iechyd i'r fath raddau, fel na chafodd adferiad oddiwrth ei heffeithiau. Tra yr oedd ei gorff fel hyn yn cael ei gystuddio, yr oedd ei elynion yn ymhyfrydu mewn duo ei gymmeriad yn y modd mwyaf hyll ac arswydus. Symmudwyd ef oddiyno i Garchar South Sea Castle, Portsmouth, lle y cauwyd arno am bum' mlynedd llawn, yn hollol ddiymgeledd a digyfeillach. Dyma beth oedd alltudiaeth o'r fath fwyaf diraddiol a darostyngol! Ond o'r diwedd, bu ei brif elynion farw, a chafodd yntau, druan, ei ryddhad. Pwy a ddichon ddarlunio ei deimladau gorfoleddus am y fath waredigaeth a rhyddhad? Yr oedd megys rhyw adgyfodiad o feirw iddo, wedi oddeutu wyth mlynedd o garchariad dibaid mewn 13 o wahanol garcharau.

Cychwynodd adref yn hyderus am fwynhau rhyddid bellach, a chyda mil a mwy o gynlluniau yn ymrithio i'w feddwl yn mha ddull y treuliai weddill ei oes; a dacw efe yn cyrhaedd Bath, ac oddiyno i Fryste, ac o'r diwedd, cyrhaeddodd Casnewydd-ar-Wysg, lle y pregethodd gydag arddeliad mawr i'w gydgenedl. Daeth o'r Casnewydd i Ferthyr, lle yr oedd tyrfa aruthrol yn aros am gael ei glywed. Dywedir fod y dyrfa yn rhifo oddeutu mil o wrandawyr—tyrfa enfawr mewn ardal wledig yr amser hwnw. Yr oedd y dyrfa yn llanw y fynwent, a phregethodd yntau iddynt oddiar Jeremiah

xvii. 8—9, "Bendigedig fyddo y gwr a ymddiriedo yn yr Arglwydd." Ond ychydig a feddyliodd neb ar y pryd fod ystorm arall yn codi, ac fod cwmmwl trallod bron ymdori ar ei ben. Tra y bu efe yn pregethu ac yn cynghori y gynnulleidfa yn y fynwent, offeiriad y plwyf, o'r enw George Jones—dyn o gymmeriad ysgeler, a duaf am feddwdod ac anniweirdeb, a yrodd i Gaerdydd at yr ynadon, y rhai oeddynt yn y Brawdlys Chwarterol, gydag achwynion a llwon celwyddog yn erbyn Mr. Powell; ac ar yr achwyniad hwn, fel pe yn falch o'r cyfleusdra, gyrwyd swyddogion i'w ddal a'i ddwyn i Garchar Caerdydd. Fel hyn, ni chafodd gymmaint a gweled ei wraig a'i blant, er agosed oedd efe iddynt.

GWERNYEED.

(*I'w barhau.*)

GWYL GERDDOROL UNDODIAID CEREDIGION, 1895.

CYNNALIWYD yr wyl hon eleni yn Nghapel Brondeifi, ar y 10fed o Fehefin, o dan arweiniad medrus Mr. D. Hughes, Rhydyfydyr. Yr oedd yr hin yn ddymunol a hyfryd, yr hyn yn ddiamheu fu yn gymhorth i gael cynnulliad mor lluosog. Yr oedd y capel yn orlawn, a chafwyd cymmanfa lewyrchus dros ben.

Llywyddwyd yn y boreu gan y Parch. E. E. Jenkins, Capelygroes, ac yn y prydnawn gan y Parch. W. J. Davies, Llwyn. Cafwyd anerchiadau dyddorol a gwir werthfawr gan y ddau. Dangosodd y blaenaf allu a dylanwad cerddoriaeth ar feddwl a theimlad dyn fel bod crefyddol, a rhoddodd yr olaf fraslun o hanes dechreuad a chynnydd caniadaeth gyssegredig, yn nghyd a sefydliad Cyfundrefn y Solffa, gan olrhain yn fanwl y modd y dadblygodd oddiar y cychwyn i'w ffurf a'i safle bresennol.

Y mae y gymmanfa ganu eisoes wedi bod yn foddion i ddwyn oddiamgylch welliant amlwg yn ein canu cynnulleidfaol. Cyn ei sefydliad, nid oedd ond aflerwch cyffredinol yn ffynu; ychydig—os dim mewn llawer man—o sylw delid i raniad y lleisiau. Fel rheol, cenid yr alaw gan y *bass* yn gystal a'r *sopranos*, ac anaml y gwneid cynnyg at ragor na chanu un llais, oddigerth ar brydiau y gosodid pwt o fass (o'r frest) i fewn gan rai o'r hen bobl, pan fyddai yr hwyl wedi cyrhaedd pwynt uwch nag arferol. Gallaf ddwyn tystiolaeth bersonol mai felly yr oedd sefyllfa caniadaeth y cyssegr mewn llawer capel Undodaidd yn Ngheredigion, a hyny er's llai nâ deng mlynedd ar hugain yn ol. Pa ryfedd, gan hyny, fod y canu yn drwsgl a chaled, ïe, ac aflafar yn fynych. Yn awr, trwy gyfrwng y gymanfa, ynghyd a gwybodaeth eangach o nodiant y Solffa, yr ydys wedi llwyddo i fesur helaeth i feithrin mwy o'r tyner a'r addoliadol. Bron yn mhob capel yn bresennol clywir y pedwar llais yn uno yn un cydgor soniarus i gyflwyno aberth o fawl i'r Duw byw.

Eleni penderfynwyd ar gynllun newydd genym mewn cyssylltiad â'r rhaglen, sef dwyn allan ddetholiad yn cynnwys y tonau mwyaf canadwy a phoblogaidd yn ein plith—tonau ydynt yn arferedig, ac yn myn'd oreu yn ein capeli. Cymmerwyd hwynt yn benaf o'r hen rhagleni, gyda rhai ychwanegiadau. Amcenir i'r llyfryn hwn fod o wasanaeth ymarferol yn ein cynnulleidfaoedd hyd nes y ceir y Llyfr Tonau ac Emynau. Fel y gwyr ein cantorion, ychydig iawn o'r gwahanol donau a ddewiswyd o bryd i bryd i wneyd i fyny ein rhagleni blynyddol ydynt wedi cael eu mabwysiadu a'u harfer genym yn ein cynnulleidfaoedd yn ol llaw. Mae y rhagleni hyn, fel eiddo ein brodyr Trindodaidd, yn cynnwys cryn gymmysgfa o donau, a gellir dweyd fod llawer o honynt yn ddim amgen na rhyw fath o *hurdy gurdy jigs* i'w *shewo* ar ddydd y gymmanfa yn unig. Ni ddewiswyd hwynt, gallwn feddwl, gyda'r amcan i fod o un gwasanaeth yn ol llaw. Beth bynag, ni fu y mwyafrif mawr o honynt o un defnydd ar ol dydd y gymmanfa. Ni wna y tonau hyn, gyda'u *leaps and bounds*, y tro—ar hyn o bryd yn sicr—i'n cynnulleidfaoedd bychain ni. Gobeithiaf y ceir diwygiad yn y cyfeiriad hwn o hyn allan, ac y bydd mwy o ofal yn y dyfodol i ddewis tonau ar gyfer ein cymmanfa flynyddol a fyddant yn addas ac yn ddefnyddiol i ni yn ol llaw, tonau syml a chryno, a'r gwahanol leisiau yn cyd-symmud, fel y byddo caniadaeth y cyssegr yn gyrhaeddadwy, ac o fewn terfynau possibilrwydd i gyfangorff y gynnulleidfa, ac y gallo pawb ymuno i roddi addoliad cerddorol i'r Bod Mawr mewn dull urddasol a gweddus.

O'r detholiad crybwylledig dewiswyd 16 o donau i'w canu yn y gymmanfa, a chan fod y cantorion eisoes yn lled gyfarwydd â hwynt, cafodd yr arweinydd fwy o amser a gwell mantais yn y cyfarfodydd parotoawl i'w coethu a'u diwyllio erbyn dydd y gymmanfa. Felly ar ddydd yr wyl yr oeddid yn gallu cyd-symmud yn gryno wrth amnaid yr arweinydd. Gwr gwylaidd, tawel, a diymhongar yw Mr. Hughes, ond etto yn gerddor a'i enaid yn llawn sel a diwydrwydd dros ganiadaeth y cyssegr a phob achos da. Fel cerddor, nid yw yn euog o orweithio y lleisiau, drwy dori *capers* fel y gwna rhai, ac ni wnaeth hyn yn Brondeifi. Gellid darllen ei arwyddion yn ei wynebpryd, ac yr oedd un edrychiad o'i eiddo yn gosod mwy o yni a mawredd yn y dadganiad na allasai wneyd drwy lifio yr awyr, neu ryw *antics* cyffelyb. Felly yr oedd y cantorion yn eu hwyliau goreu, a theimlem fod gwirioneddau aruchel yr emynau yn cael eu hysprydoli o'r newydd a'u hadgyfodi megys i fywyd uwch a mwy sylweddol.

Ychydig oedd nifer côr y plant. Gwnelid ef i fyny bron yn gyfangwbl o blant Brondeifi a Rhydygwin, a chanasant yn hynod o swynol. Dygir y cyhuddiad yn aml yn erbyn ein harweinyddion lleol eu bod yn esgeuluso y plant. Nis gall hyn fod yn wir, oblegyd y maent yn gwneyd ymdrechion canmoladwy yn y cyfeiriad hwn, ond rhywfodd neu gilydd y mae rhyw anhawsder rhyfedd i gael gan y plant i ddod i'r ysgol gân o gwbl, a chredaf gan hyny fod y

bai cywilyddus hwn yn gorwedd yn benaf wrth ddrysau y rhieni. Mae y manteision a'r annogaethau o du yr arweinyddion yn lluosog a thaer, ond y mae eu cynefindra yn methu cario argyhoeddiad i galonau y rhieni, fel ag i'w galluogi i ddirnad eu gwerth, a'r canlyniad yw na roddant un gefnogaeth i'r sawl sydd yn awyddus i wneuthur aberth i addysgu eu plant yn rhad ac am ddim! Mae y cyhuddiad yn rhy wir, a gobeithio y gwna darllen y llinellau hyn ddwysbigo calonau llawer o honynt nes eu dwyn i weled eu camsynied.

Pontshan Board School. J. R. Thomas.

Y CYRDDAU BLYNYDDOL.

Cynnaliwyd y cyfarfodydd uchod eleni yn Mhontypridd, ar y 3ydd a'r 4ydd o Orphenaf. Dyma'r tro cyntaf iddynt gael eu cynnal yma. Nid yw'r achos yn y lle ond cymharol newydd, fel y gwyr pawb o'n darllenwyr, a Saeson yw braidd yr oll o'r gynnulleidfa, a pherthyn i'r Gymdeithas Seisnig y mae, yn hytrach nag i'r un Gymreig. Nid yw yn hynod, gan hyny, fod mwyafrif mawr y cynnulleidfaoedd yn y cyrddau hyn yn cael eu gwneyd i fyny o aelodau yr eglwysi cylchynol, yn hytrach nag o eiddo'r eglwys yn Mhontypridd. Nid oes eisieu enwi neb oedd yn bresennol: digon yw dweyd fod yr oll o'r gweinidogion Cymreig oddigerth un yno, a'r oll o'r myfyrwyr, yn nghyd a chynnrychiolydd o bob eglwys yn Nghymru, gyda'r eithriad o ddwy neu dair. Nid wyf yn cofio yn gywir pa nifer o gynnrychiolwyr oedd yn bresennol, ond credaf eu bod oddeutu deugain. Yr oedd hyn yn beth newydd hollol yn hanes ein henwad. Hyd yma mae achosion enwadol wedi cael eu trefnu braidd yn llwyr gan y gweinidogion, ac nid oedd gan y cynnulleidfaoedd un llais mewn un mater. Yr unig beth allent wneyd oedd gwrthod cario'r cynlluniau allan, yr hyn efallai a wnelid yn fynych. Ond dan reolau newyddion y gymdeithas, gelwir ar bob eglwys i anfon un cynnrychiolwr i'r cyfarfodydd chwarterol a blynyddol, fel y byddo ganddynt lais yn mhob achos a ddygir gerbron; ac os yr esgeulusant wneyd hyn, ni fydd ganddynt neb i'w feio ond hwy eu hunain. Mae'r mudiad hwn yn sicr o fod yn un yn y cyfeiriad iawn, a gobeithiaf y gwneir ymdrech i'w gario allan mor bell ag y bydd yn bossibl.

Y cyfarfodydd hyn oeddynt y cyntaf i gael eu cynnal dan reolau newyddion y gymdeithas. Yn ol yr hen drefn, nid oedd ein cyfarfodydd chwarterol a blynyddol ond cyfarfodydd pregethu; ac yn gyffredin traddodid o leiaf chwech, ac weithiau wyth, o bregethau yn ystod pob cyfarfod: a gellir anturio dweyd fod hyd y nod y mwyaf awyddus i wrando pregethau yn blino arnynt cyn y diwedd, gan nad pa mor dda oeddynt. Ond dan y rheolau newyddion, mae y drefn yn hollol wahanol. Dyma drefn y cyfarfodydd yn Mhontypridd:—Nos Fercher, cyfarfod pregethu, pryd y traddodwyd dwy

bregeth; boreu dydd Iau, cyfarfod i ymdrin â materion enwadol; prydnawn dydd Iau, anerchiad y llywydd a phregeth; ac yn yr hwyr, dwy bregeth, un o'r rhai a draddodid gan y pregethwr rhag-appwyntiedig. Nis gwn a ydyw'r drefn hon i fod yn un barhaol; ond credaf fod y cynllun yn welliant mawr ar yr hen drefn.

Am y gynnadledd boreu dydd Iau, nid wyf am ddweyd ond gair neu ddau, gan y bydd Ysgrifenydd y gymdeithas yn debygol o fod wedi anfon adroddiad llawn o'r hyn a wnawd yno; ond dymunaf alw sylw at un neu ddau o bethau. Un peth, y teimlad brawdol a'r cydweithrediad oedd yn ffynu trwy yr holl gyfarfod; peth arall, y dull trefnus yn yr hwn yr awd trwy y gwaith. Os cerir yr oll o'r gwaith a dorwyd allan yn Mhontypridd i weithrediad, yn sicr, bydd y cyfarfodydd hyn yn hynod yn mysg ein cyfarfodydd blynyddol. Gobeithiaf nad dyma'r cyfarfod diweddaf o'r fath a gynnelir mewn cyssylltiad â'n cyfarfodydd chwarterol a blynyddol.

Y swyddogion am y flwyddyn ddyfodol ydynt—Llywydd, y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar; Trysorydd, Mr. John Evans, cyfreithiwr, Llandyssul; Ysgrifenydd, y Parch. Wm. James, B.A., Llandyssul; y Pregethwr, y Parch. D. Ifor Davies, Rhondda. Cynnelir y cyfarfodydd blynyddol yn Rhydygwin. Hefyd, cynnelir y cyfarfod chwarterol nesaf yn Nghapelgroes. Bydd y ddau uchod hefyd yn gyfarfodydd sefydlu y ddau gyfaill, y Parchn. E. E. Jenkins a Lewis Williams, fel gweinidogion yn Nghapelgroes a Rhydygwin.

Yn y prydnawn traddododd y Llywydd am y flwyddyn a aeth heibio, sef y Parch. Thomas Thomas, Y.H., ei anerchiad. Math o adolygiad oedd o'r cynnydd sydd wedi ei wneyd yn ystod y canrif presennol mewn celf, gwyddor, a duwinyddiaeth. Yr oedd yr anerchiad yn un tra amserol, ac yn teilyngu cyhoeddusrwydd helaethach nâ'r gynnulleidfa oedd yn gwrando arno, er fod y gynnulleidfa yn lluosog. Deallaf ei fod i ymddangos yn Yr Ymofynydd. Felly, caiff pob un fydd yn dewis y pleser o'i ddarllen. Onid buddiol fyddai cyhoeddi pob anerchiad o'r gadair ar ffurf llyfryn, fel y gwneir gan enwadau ereill? Cafodd Mr. Thomas wrandawiad astud: ac yr oedd y traddodiad ganddo yntau, fel arfer, yn rymus ac effeithiol. Pregethwyd ar ei ol gan Mr. Jones, Aberdar.

Y pregethwr appwyntiedig eleni oedd y Parch. W. James, B.A., Llandyssul. Ei bwnc oedd "Crefydd Cymru Fydd." Mae'r bregeth wedi ei hargraffu; mewn ffaith, yr oedd yn cael ei gwerthu yn y drws ar ddiwedd y cyfarfod. Mae'r bregeth yn teilyngu cylchrediad helaeth, a gobeithiaf y gwna ein cynnulleidfaoedd eu goreu i'w lledaenu. Cafodd Mr. James wrandawiad astud gan y gynnulleidfa fawr oedd yn bresennol—y lluosocaf o'r oll o'r cyfarfodydd. Pregethwyd ar ei ol yntau etto gan y Parch. J. Davies, Alltplaca.

Efallai y dylid cyfeirio at un nodwedd arbenig perthynol i'r cyfarfodydd hyn, sef y sylw neillduol a gymmerwyd o honynt gan y newyddiaduron. Yn y *South Wales Daily News* am ddydd Mercher, yr oedd erthygl ar Undodiaeth yn Nghymru, yn nghyd â darlun o'r Llywydd (Mr. Thomas) ac un gweinidog arall, sef Mr. Jones,

Aberdar. Ond aeth y *Western Mail* yn mhell y tu hwnt i hyn: yn y papyr hwn am yr un dydd, yr oedd erthygl dwy golofn ar Undodiaeth, darluniau o chwech o'n gweinidogion, ac erthygl olygyddol alluog a llawn o gydymdeimlad a ni fel enwad. Mae hyn yn cael ei wneyd yn barhaus mewn cyssylltiad a chyfarfodydd cyffelyb perthynol i'r enwadau ereill; ond dyma'r tro cyntaf i hyn gael ei wneyd i'r enwad Undodaidd.

Efallai fod cyfarfodydd blynyddol mwy llwyddiannus nâ hwn wedi bod yn hanes yr enwad yn nifer y gwyddfodolion, ond yn sicr, credaf nad oes un wedi bod mor llwyddiannus yn mhob ystyr arall.

Y PWYLLGOR BOREU DYDD IAU.

Cyfarfu y pwyllgor boreu dydd Iau am 10, ac ystyriaf ei bod yn gam yn mlaen pan y mae adeg neillduol wedi ei threfnu i'r perwyl hyd y nod ar draul colli un o'n cyfarfodydd pregethu. Da genyf hefyd ein bod o'r diwedd wedi llwyddo am unwaith beth bynag i gael cynnrychiolaeth foddhaol er mwyn cario'n mlaen y trefniadau angenrheidiol ag mae'r mudiad Undodaidd yn Nghymru yn ofyn oddiwrthym. Yr oedd hwn yn gyfarfod o gynnrychiolwyr—yn bregethwyr a lleygwyr, ac yr wyf yn hyderu y bydd y ddau allu yn nglyn â'u gilydd yn help sylweddol i wneyd Undodiaeth yn drefniant byw ac ymosodol yn y Dywysogaeth. Yr wyf yn llawenhau am y cam hwn sydd wedi ei gymmeryd, a thaer obeithiaf y bydd yspryd y cyfarfod hwn, a ffrwyth y drafodaeth a gymmerodd le ynddo, yn cyfiawnhau ein hymdrechion yn y gorphenol, ac yn symbyliad i ni fyned yn mlaen gyda mwy o weithgarwch yn y dyfodol.

Yr oedd y cynnrychiolwyr fel y canlyn:—Hen Dy Cwrdd Aberdar, y Parch. R. J. Jones, M.A., a Mr. D. Evans; Cwmbach, y Parch. J. Fisher Jones a Mr. J. James; Cefncoed, y Parch. J. Hathren Davies a Mr. W. Harris; Gellionen a Trebannos, y Parch. T. J. Jenkins a Mr. D. Davies; Pentre Ystrad a Chwm Clydach, y Parch. D. Ifor Davies, Mr. E. Jones, a Mr. D. J. Jones; Caeronen a Brondeifi, y Parch. R. C. Jones, Mr. Daniel Davies, a Mr. W. Hevin Williams; Ciliau a Rhydygwin, y Parch. L. Williams, Mr. E. Evans, a Mr. D. Hughes; Alltplaca a Chapelbryn, y Parch. John Davies, Miss Mary Davies, a Mr. E. J. Thomas; Capelgroes, y Parch. E. E. Jenkins a Mr. James Jenkins; Cribin, y Parch. David Evans a Mr. D. Jones; Llwynrhydowen a Chapelfadfa, Mr. John Jones a Mr. J. R. Thomas; Pantdefaid a'r Graig, Llandyssul, y Parch. T. A. Thomas, Mr. J. Jones, a Mr. J. Evans.

Yr oedd yn bresennol hefyd, ac yn cymmeryd rhan yn y gweithrediadau, y Parchn. Dr. Griffiths, Pontypridd; D. J. Williams, Merthyr; T. Lloyd Jones, Liverpool, &c.; heblaw Llywydd, Ysgrifenydd, a Thrysorydd y Gymdeithas.

Cymmerwyd y gadair gan y Llywydd, y Parch. T. Thomas, Y.H., Green Park, a phasiwyd y penderfyniadau canlynol:—

1. Fod diolchgarwch gwresocaf y gymdeithas i gael ei ddychwelyd i Miss Sharpe, Llundain, am *cheque* o £2 2s. trwy law y Parch. R. J. Jones, M.A., er mwyn galluogi y gymdeithas i anfon cynnrychiolydd i gyfarfod blynyddol nesaf y *British and Foreign Unitarian Association.*

2. Fod y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar, i fod yn Gadeirydd, Mr. W. James, Brynhyfryd, i fod yn Ysgrifenydd, a Mr. J. Evans, cyfreithiwr, Llandyssul, i fod yn Drysorydd y Gymdeithas yn ystod y flwyddyn nesaf.

3. Fod cyfarfod blynyddol y gymdeithas am 1896 i gael ei gynnal yn Rhydygwin. Pregethwr, y Parch. D. Ifor Davies, Pentre.

4. Fod y cyfarfod chwarterol nesaf i gael ei gynnal yn Nghapelgroes. Y Parch. T. Thomas i bregethu.

5. Nad oes dim llai nâ naw o aelodau y pwyllgor i gyfansoddi *quorum.*

6. Fod casgliad i gael ei wneyd yn ein cyfarfodydd blynyddol a chwarterol, ac fod rhan o hono i fyned at dreuliau lleol, a rhan arall fyddo wedi ei drefnu ar y pryd at drysorfa y gymdeithas.

7. Fod dwy fil o gopïau o reolau y gymdeithas i gael eu hargraffu.

8. Fod y cyfarfod hwn yn dymuno datgan eu diolchgarwch gwresocaf i'r *South Wales Daily News* a'r *Western Mail* am y cyhoeddusrwydd maent wedi roddi i'n cyfarfodydd, ac am y sylw caredig a chydymdeimladol a gymmerant o'n gwaith a'n hymdrechion o bryd i bryd yn eu colofnau.

9. Ein bod, yn ngwyneb yr etholiad pwysig sydd ar gymmeryd lle, yn dymuno cymhell aelodau ein heglwysi a phawb sydd yn dwyn perthynas â ni i gyfeirio eu hymdrechion tuag at sicrhau buddugoliaeth y syniadau rhyddfrydig hyny ydym ni, fel Undodiaid Cymreig, wedi bod erioed yn ymladd drostynt, gan gadw yn neillduol yn y ffrynt bynciau mawrion cydraddoldeb crefyddol a rhyddid cyflawn ein cyfundrefn boblogaidd o addysg oddiwrth reolaeth sect.

10. Penderfynwyd trwy y tugel fod y rhai a ganlyn i ffurfio y pwyllgorau er dwyn allan y Llyfr Emynau a Thonau. (Rhoddir yr enwau yn ol trefn y wyddor.) Pwyllgor yr emynau—Y Parchn. J. Hathren Davies, Cefncoed; Ifor Davies, Pentre; W. James, Llandyssul; R. J. Jones, Aberdar; a T. Thomas, Green Park. Pwyllgor y tonau—Mr. David Davies, Gellionen; y Parch. W. J. Davies, Llwynrhydowen; Mr. D. Hughes, Rhydygwin; Mr. R. Howells (Alaw Cynon), Pontypridd; a Mr. W. Hevin Williams, Llanbedr.

11. Dychwelwyd diolchgarwch gwresocaf y gymdeithas i'n Llywydd parchus am ei wasanaeth fel Llywydd yn ystod y flwyddyn.

W. James, *Ysgrifenydd.*

Nis gallaf gredu, anwyl ffrynd,
I Dduw, yn ei ddoethineb
A'i gariad mawr, greu dyn i fyn'd
I boen am dragwyddoldeb!—*B. Davies, Trebanos.*

NODYNAU GWASGAROG.

CARIAD A GYNNYRCHA GARIAD.

Parodd sain ber yr aderyn yn y *cage* gerllaw y ffenestr i'r Canon Wilberforce ddywedyd yn ei ffordd frwdfrydig ei hun : " Fe wyr yr un gàn Ellmynaidd felus, *Ich liebe dich* ('Rwy'n dy garu di). Ond nis gallaf gael ganddo ei ganu, heb sefyll o flaen y *cage* a chwiban y tiwn fy hunan, gan droi fy mhen yn ol ac yn mlaen, a gwenu arno, a cheisio yn mhob modd wneuthur fy hun mor gartrefol ag sydd bossibl ag ef. Wrth wneuthur hyn, yr wyf wedi meddwl lawer gwaith mae felly yn gywir y mae Duw yn cael càn allan o fy nghalon inau. Gallai fy nyfetha yn ei law yn debyg fel y gallwn I ddyfetha'r aderyn bach. Ond i ba ddyben y gwneid hyny ? Ni fyddai hyny ond dinystrio organ-gorff prydferth, ac heb gael y gân wedi'r cwbl. Mae yr aderyn yn debyg i mi ; ni wnaiff yr un o honom ganu cân nes sylweddoli y gwirionedd ei fod Ef yn gyntaf wedi ein caru ni. Rhaid i rydd ewyllys yn wastad gydfyned â chariad.

EDRYCH AR YR OCHR OLEU.

Cwrddodd dyn unwaith â chrotyn bychan ar yr heol yn cario basgedaid o fwyar duon, a dywedodd wrtho, " Heiho, fy machgen, b'le cawsoch chi'r mwyar hyfryd ? Oni fydd eich mam yn llawenhau i'ch gweled yn dyfod adref â'r fath fasgedaid ardderchog o ffrwyth addfed ? " " Bydd, syr ; ymddengys yn wastad yn hapus pan fyddaf yn dangos y mwyar iddi, ac yn peidio son am y drain yn fy nhraed." Aeth y gwr dyeithr rhag ei flaen. Yr oedd sylw y bachgen bach wedi bod yn wers iddo, a phenderfynodd o hyny allan i ymdrechu bob amser i ddangos y mwyar, a pheidio son am y drain !

AFALAU.

Yn y *Cambrian Journal* am Mehefin, 1858, fe roddir 180 o wahanol enwau Cymreig afalau, a dywedir eu bod gan mwyaf mewn arferiad yn Morganwg.

D.S. – A oes rhywun o ddarllenwyr Yr Ymofynydd a wyr enwau y gwahanol adar yn ei ardal ei hun ?

" LONDON KELT."

Pa nifer o Gymry Llundain sydd wedi gweled " Newyddiadur Cymry Llundain," papyr ceiniog wythnosol yn dwyn yr enw

London Kelt? Dylent fod ar y *look out* am dano. Papyr darluniedig yw, yn Gymraeg a Saesneg, 20 tdd. Myner ei weled, ac yna penderfyner beth i'w wneyd.

"THE WELSH PIONEER."

Dyma gylchgrawn misol bychan dan nawdd Mr. Delta Evans,a golygiaeth Mr. Sam Rees. Pedair tudalen yw, ond y mae yn gynnwysfawr iawn a dosparthir ef yn rhad. Dylai y boneddigion hyn gael pob cefnogaeth yn eu hymgais ganmoladwy i ddwyn crefydd rydd a rhesymol i sylw Undodiaid Llundain. Deallwn oddi wrtho fod yn Llundain bum' mil ar hugain yn medru siarad yr hen Gymraeg yn rhwydd a chywir, ac nad oes ond cyfran fechan o'r rhai hyn yn aelodau eglwysig yn un man. Oni ddylid gwneuthur ymdrech i gael gafael yn y rhai hyn, a'u gwneuthur yn filwyr yn y fyddin grefyddol ryddfrydig?

YR ETHOLIADAU—DAMMEG.

Mr. Gol.,—A ellwch chwi roddi lle i ddernyn bach o hanes o'r Ysgrythyr? Ymddengys i mi yn bwrpasol iawn i'r cyfwng presennol, ac nid wyf yn meddwl fod eisieu cael un Joseph i'w esponio. —L.Y.G.

"Ac wele yn esgyn i fyny o'r afon saith o wartheg tewion o gig a theg yr olwg; ac mewn gweirglodd-dir y porent. Wele, hefyd, saith o wartheg ereill yn esgyn ar eu hol hwynt, truain, a drwg iawn yr olwg, ac yn gulion o gig; ni welais rai cynddrwg â hwynt yn holl dir yr Aifft; a'r gwartheg culion a drwg a fwytasant y saith muwch tewion cyntaf; ac er eu myned i'w boliau, ni wyddid iddynt fyned i'w boliau; ond yr olwg arnynt oedd ddrwg, megys yn y dechreuad."—Genesis xli. 18—21.

YMWELIAD Y PARCH. ROBERT SPEARS A CHYMRU.

Y mae yn mwriad Mr. Spears i dalu ymweliad â Chymru unwaith etto. Daw i lawr Medi 4, ac y mae'n awyddus i fod o ryw ddefnydd i'n heglwysi. Bydd yn foddlon darlithio neu bregethu, ac oni ellirhyny bydd yn falch i gael tipyn o ymddyddan â chyfeillion perthynol i'n gwahanol eglwysi. Erys yn Nghymru hyd Medi 18, pan y bydd yn dychwelyd i Lundain. Y mae Mr. Spears wedi bod o wasanaeth mawr i'r enwad. Tebyg mai efe yw yr *organizer* goreu sydd gyda ni. Y mae wedi sefydlu amryw eglwysi newyddion, ac wedi gosod bywyd mewn rhai hen. Efe sefydlodd y *Christian*

Freeman, sydd wedi bod mor boblogaidd am fwy na 40 mlynedd; efe hefyd sefydlodd y *Christian Life*, ac efe sydd yn ei olygu. Efe fu'n foddion cychwyn y *Channing House School*, sydd wedi bod o gymmaint budd i ferched yr enwad. Teimla'n wresog iawn dros lwyddiant yr enwad yn Nghymru, ac yr wyf yn gobeithio y gwnawn ni bawb ymdrech i wneuthur ei ymweliad yn fendith fawr i'r achos, ac i beru iddo yntau deimlo fod iddo roesaw calon i'n plith. Gwnaiff ei ymweliadau â Morganwg yn gyntaf. Byddaf yn falch i gael unrhyw awgrymiadau i wneuthur y defnydd goreu o amser Mr. Spears. – R.J.J.

UNDODIAID CYMREIG LLUNDAIN.

Y mae Mr. D. Delta Evans wedi cychwyn mudiad newydd yn Llundain, gyda'r bwriad o ddwyn y Cymry yno i gyssylltiad a chydymdeimlad â'u gilydd, ac yr wyf yn gobeithio y gwnaiff ein darllenwyr sydd a phlant neu gyfeillion yno gyfeirio eu sylw at y mudiad, a gwasgu arnynt y dymunoldeb o geisio cwrdd â'u gilydd i gymmeryd dan ystyriaeth ryw foddion a ddichon fod yn fuddiol iddynt fel dyeithriaid yn Mabel Fawr y Priddfeini, mewn ystyr grefyddol, wladwriaethol neu gymdeithasol. Boneddwr ieuanc ydyw Mr. Delta Evans, o dref Rhyl yn Ngogledd Cymru. Wedi blino ar yr hen gredoau, mae yn awyddus am gymdeithas brodyr a chwiorydd o gyffelyb syniadau a theimladau ag ef ei hunan. Gellir ysgrifenu ato yn 32, Franklin Street, Vartry Road, South Tottenham. Y mae Cymru Llundain mor wasgaredig, ac mor anhawdd dyfod o hyd iddynt, fel yr wyf yn gobeithio y gwna darllenwyr YR YMOFYNYDD bob ymdrech a allant i'w cael at eu gilydd o leiaf unwaith, ac yna yn amlach os gellir. Gall cymdeithas o'r fath fod o fendith anrheithol i ieuenctyd Cymru pan yn Llundain; a byddai yn drueni o'r mwyaf i adael i'r mudiad syrthio i'r llawr o ddiffyg ychydig gefnogaeth ar y cychwyn.—R.J.J.

CYNNULLFAN I UNDODIAID CYMREIG LLYNDAIN.

Yn 63, City Road, Llundain, y mae un Mr. Carlier yn byw. Undodwr ieuanc yw, sydd yn dymuno llwyddiant i'r achos. Y mae ganddo siop lyfrau fechan, lle mae'r YMOFYNYDD ar werth, ac ystafell neu barlwr cysurus lle y gall cyfeillion gael cwpanaid o dê, a chyfleusdra i ymddyddan â'u gilydd. Wn I a ydyw Cymry Llundain—Cymry Undodaidd Llundain, yn gwybod am y man hwn. Dyma gyfleusdra ardderchog iddynt. Manteisient arno. Cynnullfan cysurus, lle nad oes dim o'r peryglon a'r profedigaethau sydd mor barod i orddiwes pobl ieuainc oddi cartref. I ba le y mae

Cymry Undodaidd Llundain yn myned i'r cwrdd ar y Sul? Oni charent gwrdd â'u gilydd, a chynnal cyfarfod darllen, a chanu yr hen emynau cyssegredig oeddynt mor anwyl yn yr hen gartref rhwng bryniau yr hen wlad? Gymry anwyl oddi cartref, gwnewch ymdrech i gwrdd â'ch gilydd i gael cyfeillach felus a diniwed a all fod yn fendithlawn mewn llawer cyfeiriad.—R.J.J.

Y MEDDWYN.

Yfed yn galed heb gywilydd—bir
Boreu a diwedydd,
Nid oes pen nac ymhenydd,
Meddaf fi, nad meddw fydd.

H. Huws (*Y Brython*, 311).

LLYFRAU UNDODAIDD.

Yn yr Essex Hall, Essex Street, Strand, fel ellir cael llyfrau Undodaidd o bob math, ac fe weddai i ni wneuthur pob ymdrech i ddwyn y rhai hyn i sylw y cyhoedd. Ofnwn fod ein pobl ieuainc mewn perygl colli pob crefydd, a syrthio allan o bob cydymdeimlad â chrefydd. Maent yn colli gafael ar angorfeydd yr hen gredoau, ac yn methu cael dim yn eu lle; ac felly daw ein cyfleusdra ni i osod ger eu bron ffurf o grefydd sydd yn gysson â rheswm ac à gwyddor. Taler ymweliad â'r Essex Hall, neu ynte ysgrifener am *gatalogue*. Ceir traethodynau a llyfrau o bob math, yn egluro pob pwnc o'r ffydd Undodaidd, o ddimai i fyny. A ydyw ein pobl ieuainc yn darllen—darllen llyfrau o'r iawn ryw, llyfrau buddiol ac adeiladol? Y mae'r byd yn myned rhagddo. Beth yr ydym ni yn ei wneuthur? Helpiwn ein hunain, helpiwn ein gilydd. Daliwn wrth ein baner. Glynwn wrth ein hegwyddorion. Byddwn ffyddlon i'r alwedigaeth nefol.—R.J.J.

OER, OER!

Yr Ior o'i oror a yra—ei rew
A'i rywiau o'r oera;
Ar ei ru e' yrr yr ia
O'r awyrau 'r ä'r eira.

Gwilym Huw.

Manion ac Hanesion.

PANTDEFAID A LLANDYSSUL.—Dydd Gwener, Mehefin yr 28ain, cynnaliwyd cyfres o gyfarfodydd dyddorol yn Mhantdefaid a'r Graig, Lladdyssul, mewn cysylltiad â sefydliad Mr. Arthur Thomas, o Goleg Caerfyrddin. Yn Mhantdefaid, yn y boreu, ar ol darllen a gweddio gan y Parch. W. J. Davies, rhoddwyd y *charge* i'r gweinidog gan y Parch. John Davies, Alltplaca, ac i'r eglwys gan y cyn-weinidog, y Parch. Thomas Thomas, Y.H. Yn y prydnawn a'r hwyr parhawyd y cyfarfodydd yn y Graig, pryd y pregethwyd gan y Parchn. R. C. Jones, Llanbedr, a Dr. Griffiths, Pontypridd; a'r Proffeswyr Ph. Moore, B.A., a D. E. Jones, M.A, o Goleg Caerfyrddin. Heblaw y rhai a enwyd, yr oedd hefyd yn bresennol y Parchn. T. Lloyd Jones, Liverpool; Gwenogfryn Evans, M.A., Rhydychen; Tyssul Davies, B.A., Devonport; Jenkyn Thomas, Aberdar; Enoch Jenkins Capelgroes, ac ereill. Dechreua Mr. Thomas ei weinidogaeth dan amgylchiadau ffafriol, a chyda rhagolygon gobeithiol am lwyddiant.

CEFN COED.—Ail-agorir yr Hen Dy Cwrdd dyddiau Sul a Llun, Awst 4edd a'r 5ed. Gobeithiwn y ceir gweled lluaws o ddieithriaid.

Y LLYFR TONAU AC EMYNAU.—Dymunir galw sylw ein heglwysi at y llyfr hwn. Y mae, ond odid, gan amryw yn ein heglwysi emynau y carent eu gweled yn argraffedig yn y llyfr newydd, neu y carent eu cyflwyno i sylw y pwyllgor. Dymunir ar i'r cyfryw ymohebu ag ysgrifenydd y pwyllgor emynau—Hathren Davies, Cefn Coed, Merthyr Tydfyl.

Y PHOTOS.—Yn rhifyn Medi bydd darlun o'r Parch. Robert Spears, yr hwn sydd ar fedr ymweled â'n heglwysi yn Nghymru.

LLANDYSSUL.—Dydd Mercher, Gorphenaf 10fed, cynnaliodd Ysgol Sul y Graig eu *picnic* ar ddol perthynol i Mr. Evans, Porth Hotel. Yn y prydnawn cyfarfyddwyd yn y capel, ac yna gorymdeithiwyd i fyny i'r cae ar hyd lan afon Teifi. Yma o dan gysgod coeden fawr y mwynhaodd pob un ei hunan yn rhagorol o'r tê a'r bara brith, ffrwythau, melusion, &c., ag oedd boneddigesau perthynol i'r capel wedi barotoi. Yn ystod y prydnawn cymmerwyd rhan mewn rhedegfeydd a chwareuon o bob math. Ar ol talu diolchgarwch i'r boneddigesau oedd wedi darparu y wledd, terfynwyd y dydd llawen hwn trwy gydganu Hen Wlad fy Nhadau.

Marwgofion.

Chwefror 28, yn 79 oed, bu farw yr onest, a'r diniwed, a'r di-dderbyn-wyneb Elizabeth Davies, Ty-cornel, Penbontshan, Llandyssul. Claddwyd hi y dydd Sadwrn canlynol yn mynwent Llwynrhydowen. Pregethodd T.T. ar yr achlysur. Merch weddw ydoedd, a gair da iddi gan bawb a'i hadwaenai. Bydd llawer o ysgolheigion Pontshan gynt yn cofio yn dda am dani. Drwg gan yr ysgrifenydd na fuasai ei marwolaeth wedi cael ei chofnodi yn gynt.

Mehefin 14, Martha Evans, Felin-tyhen, Llanbedr, yn 62 oed. Nid oedd iechyd yr ymadawedig wedi bod yn dda er ys blynyddau, a bu ei chystudd olaf yn faith, ac yn hynod boenus. Bu'n fam dyner a gofalus, ac yn briod hawddgar, a gadawodd mewn galar dwys ar ei hol briod, a saith o blant. Bydded iddynt gael nerth i alaru fel rhai'n feddiannol ar obaith o gael cyfarfod mewn gwlad well. Claddwyd yn mynwent Brondeifi. Gwasanaethwyd yn y ty gan *vicar* y plwyf, ac yn y gladdfa gan weinidog y lle.

Mehefin 23, Margretta Davis, merch fechan Mr. a Mrs. Davis, Coedparc, Bettws Bledrws, yn 3½ oed. Ar y dydd Mercher canlynol daeth torf luosog o gyfeillion a pherthynasau yn nghyd i hebrwng gweddillion y fechan i'w bedd yn mynwent y plwyf, ac i ddangos eu cydymdeimlad â'r galarwyr trallodus. Gwasanaethwyd yn y ty gan R. C. Jones, Llanbedr, a'r Parch. H. James, Aberduar, ac yn y fynwent gan yr offeiriad.



Y Parch. Robert Spears.